**COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER, 22 GORFFENNAF 2015 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:30)**

**Aelodau CFfDLC a oedd yn bresennol:** Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod), Julie James (Aelod Annibynnol)

**Cynrychiolydd Grant Thornton a oedd yn bresennol:** Julie Masci

**Cynrychiolydd Deloitte a oedd yn bresennol:** Katherine Shafer

**Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol:** Lisa James
Rachel Colligan

**Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Ann-Marie Harkin

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Steve Halsall (Prif Weithredwr),
David Carr (Rheolwr Cyllid)

Croesawodd y Cadeirydd Rachel Colligan o Lywodraeth Cymru a oedd yn bresennol fel arsylwr.

**1. Ymddiheuriadau ar gyfer Absenoldeb**

1.1 Rhoddodd y Cadeirydd ymddiheuriadau ar ran Matthew Redmond (CFfDLC).

**2. Datganiadau o Fuddiant**

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant.

**3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2015**

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2015, yn amodol ar fân ddiwygiad.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol**

4.1 Nododd y Pwyllgor fod yr holl eitemau a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol wedi eu cwblhau bellach neu ymdrinnir â nhw'n ddiweddarach ar yr agenda.

**5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg**

5.1 Crybwyllwyd bod y Cynllun Gwaith wedi ei ddrafftio ar gyfer 2015-16 a'i fod yn cynnwys eitemau y nodwyd eu bod yn ofynnol mewn cyfarfodydd blaenorol. **Cytunwyd** y byddai disgrifiad yr eitem gyntaf yn ymwneud â rheoli risg yn cael ei

ehangu i'w gwneud yn glir ei bod yn cynnwys adolygu polisi rheoli risg y Comisiwn.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2015

5.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith ar gyfer 2015-16 yn amodol ar y mân ddiwygiad y cytunwyd arno.

## 6. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

6.1 Crybwyllwyd bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn barod ar gyfer ei adolygiad blynyddol ac fe gafodd ei ystyried. Nodwyd nad oedd y manylion aelodaeth ar gyfer yr aelod annibynnol yn cynnwys yr estyniad 1 flwyddyn diweddar i'w benodiad a **chytunwyd** y dylid ei gynnwys. Nodwyd bod angen diwygio un mân wall arall.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2015

## 7. Cyfrifon Blynyddol 2014-15 ac Adroddiad Archwiliad Allanol o Ddatganiadau Ariannol

7.1 Crybwyllodd y Rheolwr Cyllid y prif bwyntiau o bwys ar y cyfrifon archwiliedig i'r Pwyllgor, gan gynnwys y prif feysydd incwm a gwariant a'r amrywiannau ar wariant y flwyddyn flaenorol.

7.2 Crybwyllodd Julie Masci y cafodd y cyfrifon blynyddol ar gyfer 2014-15 eu harchwilio yn ystod yr wythnos yn dechrau 15 Mehefin 2015, a diolchodd i staff y Comisiwn am gynorthwyo'r archwilydd. Bu rhywfaint o fân newidiadau i'r ffigurau a gwnaed rhai mân newidiadau eraill i wella'r cyflwyniad. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro ac nid oedd unrhyw faterion sylweddol eraill i adrodd arnynt ac, yn amodol ar dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth llofnodedig gan y Comisiwn, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol. Yn unol â hynny, nid oedd unrhyw reswm i'r Pwyllgor beidio ag argymell y dylai'r datganiadau ariannol gael eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw argymhellion archwilio yn deillio o'r gwaith archwilio.

7.3 Crybwyllodd Julie Masci y bwriadwyd y byddai John Golding yn bresennol yng nghyfarfod mis Tachwedd i gyflwyno Llythyr Rheoli 2014-15 y Comisiwn, ond ar ôl y dyddiad hwnnw, byddai cyfrifoldeb dros archwilio allanol y Comisiwn yn trosglwyddo i Swyddfa Archwilio Cymru (WAO). Dywedodd Ann-Marie Harkin y byddai'n parhau fel cyswllt y Comisiwn ag WAO, ac y byddai'n rhoi gwybod i'r Comisiwn pwy fyddai eu harweinydd ymgysylltu WAO newydd ar gyfer gwaith archwilio yn y dyfodol, a gobeithir y byddai'n gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod mis Tachwedd.

## 8. Archwilio Mewnol: Adroddiadau Archwilio Blynyddol a Diwedd Blwyddyn 2014-15

8.1 Crybwyllodd Katherine Shafer fod archwiliad diwedd blwyddyn Deloitte wedi cwmpasu Adolygiadau'r Comisiwn, Arian Mân a Phrynu, Symiau Taladwy a Chaffael, y rhoddwyd graddfa sicrwydd Sylweddol i bob un ohonynt. Gwnaeth yr adroddiad 7 argymhelliad archwilio, 4 ohonynt â blaenoriaeth ganolig a 3 ohonynt â blaenoriaeth isel. Derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan y Comisiwn, a nodwyd ymatebion rheolwyr i'r argymhellion hyn a dyddiadau cau ar gyfer eu rhoi ar waith.

8.2 Roedd Adroddiad Blynyddol 2014-15 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith archwilio a'i ganfyddiadau ac yn rhoi graddfa sicrwydd gyffredinol 'Sylweddol' i'r Comisiwn, ar sail y gwaith archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn cynnwys hunanasesiad Deloitte o'u perfformiad o ran cyflawni'r gwaith archwilio yn ystod y flwyddyn.

8.3 Ystyriodd y Comisiwn Atodiad C i'r Adroddiad Archwilio Blynyddol a oedd yn cwmpasu enghreifftiau o dwyll yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys twyll yn deillio o newidiadau i fanylion cyflenwyr. Adlewyrchwyd hyn yn un o'r argymhellion archwilio – y dylai'r Comisiwn dynhau ei reolaethau ar gyfer diwygio manylion cyflenwyr i sicrhau na ellid eu newid yn dwyllodrus. Nodwyd y cytunwyd rhoi'r argymhelliad hwn ar waith erbyn 31 Rhagfyr 2015, ond erbyn meddwl, penderfynwyd y dylid symud y dyddiad hwn ymlaen. Cytunwyd rhoi'r argymhelliad archwilio hwn ar waith cyn gynted â phosibl.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2015

## 9. Cynllun Archwilio Mewnol 2015-16

9.1 Cyflwynodd Katherine Shafer Gynllun Archwilio Mewnol Deloitte ar gyfer 2015-16 ymlaen. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Lledaenwyd y gwaith o archwilio systemau cyllid amrywiol dros bob un o 5 mlynedd y contract;
- Roedd yr archwiliad o drefniadau'r gronfa bensiwn wedi'i drefnu ar gyfer 2017-18 er mwyn sicrhau bod gofynion cynllun pensiwn newydd y Gwasanaeth Cyhoeddus wedi eu rhoi ar waith yn llawn;
- Dyrannwyd yr archwiliad o arolygon y Comisiwn dros 2 flynedd, sef 2017-18 a 2019-20 er mwyn sicrhau bod digon o waith arolygu wedi ei gyflawni a'i gwblhau;
- Roedd yr archwiliad o'r Cynllun Strategol wedi ei bennu ar gyfer 2015-16 er mwyn sicrhau ei fod yn barod ar gyfer cyfnod y gwaith arolygu;
- Dyrannwyd 2 ddiwrnod ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol ym mhob un o'r blynyddoedd 2015-16, 2017-18 a 2019-20, ac 1 diwrnod yr un ar gyfer y 2 flynedd sy'n weddill.

9.2 Nodwyd er bod y meysydd gwaith archwilio wedi eu hamserlennu er mwyn ceisio sicrhau'r perthnasedd a'r prydlondeb mwyaf, bwriadwyd i'r Cynllun fod yn hyblyg a ellid ei wneud yn ddiweddarach yn unol ag amgylchiadau'r Comisiwn. Yn y cyd-destun hwnnw, efallai y bydd angen ailystyried amseriad y gwaith archwilio Adnoddau Dynol sydd wedi ei gynllunio ar gyfer 2018-19 yn ddiweddarach. Yn

amodol ar y ffactorau hyn, **cytunodd** y Pwyllgor y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2015-16 ymlaen.

## 10. Asesiad Archwilio Mewnol Blynyddol CFfDLC 2014-15

10.1 Crybwyllwyd bod Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg wedi cwblhau eu hasesiad blynyddol cyntaf o archwilio mewnol ar gyfer 2014-15. Cynhaliwyd yr asesiad trwy holiaduron a lenwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau'r Pwyllgor.

10.2 Nododd y Pwyllgor gasgliadau'r asesiad, sef bod annibyniaeth a pherfformiad Archwilio Mewnol o safon uchel ac wedi bodloni gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a bod y gwaith archwilio wedi ei gyflawni'n effeithiol ac y byddai o fudd i lywodraethu gweithredol y Comisiwn.

## 11. Argymhellion Archwilio – Adroddiad Cynnydd

11.1 Nododd y Comisiwn y cynnydd ar yr argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill. Nodwyd eto na ellid rhoi'r argymhelliad sy'n weddill er 2012-13, sef y dylai CFfDLC brofi ei restr wirio arolygon ar gyfer effeithiolrwydd, ar waith nes yr ymgymerwyd â digon o waith arolygu, na fyddai'n bosibl nes i'r rhaglen arolygu newydd ddechrau.

11.2 Byddai'r Rheolwr Cymorth Busnes yn ymdrin â'r ddau argymhelliad sy'n weddill er 2013-14 yn ymwneud â threfniadau Rheoli Cofnodion CFfDLC. Yn wreiddiol, roedd y dyddiad cau ar gyfer ei roi ar waith wedi ei bennu ar gyfer 31 Ionawr 2015, ond fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach i 30 Mai 2015. Bwriadwyd cynnig estyniad pellach hyd at 31 Awst 2015 oherwydd absenoldeb hirdymor parhaus y Rheolwr Cymorth Busnes, ond roedd datblygiadau pellach yn golygu bod y dyddiad hwnnw'n annhebygol o gael ei gyflawni hefyd. Rhoddodd y Swyddog Cyfrifyddu ei sicrwydd i'r Pwyllgor y gellid gohirio'r ddau argymhelliad a oedd yn weddill o 2013-14 yn ddiogel, oherwydd roedd yr holl brif weithdrefnau a rheolaethau rheoli cofnodion ar waith. **Cytunwyd** y gellid rhoi'r dyddiadau cau ar gyfer y ddau argymhelliad sy'n weddill o 2013-14 yn ôl i 31 Rhagfyr 2015.

11.3 Cododd archwiliad canol blwyddyn 2014-15 chwe argymhelliad, yr oedd pedwar ohonynt wedi eu rhoi ar waith. O'r ddau argymhelliad a oedd yn weddill, mae un, yn ymwneud ag adolygu Cod Ymddygiad y Comisiwn i Aelodau, wedi ei roi ar waith erbyn hyn hefyd ar ôl cael ei fabwysiadu gan y Comisiwn. Roedd yr argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â dilysu data pensiwn aelod yn aros am ymateb pellach gan MyCSP.

11.4 Cododd archwiliad diwedd blwyddyn diweddar 2014-15 wyth o argymhellion, yr oedd tri ohonynt wedi eu rhoi ar waith. Roedd y rhai a oedd i'w rhoi ar waith o hyd fel a ganlyn:

- bod y Comisiwn yn canolbwyntio ar gadarnhau nodiadau'r gweithdrefnau ar gyfer arolygon ac yn sicrhau eu bod yn cael eu dilyn ar gyfer pob arolwg yn y dyfodol – dyddiad cau 31/08/15.

- bod ffurflenni cyflenwyr newydd yn cael eu cwblhau ac yn cael eu dilysu'n annibynnol gan aelod o'r Tîm Cyllid ac, os bydd diwygiad i fanylion cyflenwr presennol, caiff y cyflenwr ei ffonio i gadarnhau'r newidiadau hyn gan ddefnyddio rhif ffôn a gofnodwyd ar gyfer y cyflenwr hwnnw eisoes – dyddiad cau 31/07/15.
- bod dogfennau yn ymwneud â rolau a chyfrifoldebau a gwahaniad dyletswyddau sydd ar waith yn y Comisiwn yn cael eu diweddaru i adlewyrchu cyflogeion presennol, a'u bod hefyd yn cynnwys rhestr llofnodwyr awdurdodedig gyfredol y dylid ei hadolygu'n rheolaidd – dyddiad cau 31/12/15.
- bod y Comisiwn yn canolbwyntio ar gyfuno'r holl weithdrefnau prynu presennol mewn Llawlyfr Caffael cyfredol, a ddylai gynnwys gweithdrefnau ar gyfer cynnal ymarferion tendro – dyddiad cau 31/12/15.

## 12. Prawf y Cynllun Parhad Busnes

12.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad prawf CFfDLC o'i Gynllun Parhad Busnes a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2015 ynghyd â'r newidiadau arfaethedig, a roddwyd ar waith ac eithrio diweddaru'r rhestr prif weithredwyr awdurdodau lleol, a oedd yn mynd rhagddo o hyd.

12.2 Nodwyd bod y cyfleuster parhad ar gyfer y cyfleuster desgiau poeth TG yn Llywodraeth Cymru wedi newid oherwydd i Brunel House gael ei adael. Rhoddodd Lisa James wybod i'r Pwyllgor bod y cyfleuster desgiau poeth sydd ar gael ym Mharc Cathays yn aml wedi ei gyfyngu oherwydd y galw uchel am y desgiau. **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn brofi argaeledd y cyfleuster desgiau poeth TG newydd ym Mharc Cathays yn ystod tymor yr ysgol, pan mae'r galw mwyaf amdanynt. Byddai hyn yn galluogi'r Comisiwn i asesu unrhyw broblemau posibl a all godi.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Medi 2015

## 13. Rhestr Golledion 2014-15

13.1 Nododd y Comisiwn y colledion ar gyfer 2014-15. Mewn perthynas â cholled yn deillio o argraffu adroddiad y canfuwyd ei fod yn cynnwys gwall, sicrhaodd Mr Halsall i'r Pwyllgor y byddai'r gweithdrefnau ar gyfer prawfddarllen a sicrhau ansawdd adroddiadau yn cael eu hadolygu a'u cryfhau.

## 14. Adroddiad Rheoli Risg

14.1 Ystyriwyd yr adroddiad, y gofrestr bresennol a'r polisi. Crybwyllwyd na fu unrhyw newidiadau i'r gofrestr risg gorfforaethol er mis Ebrill 2015, oherwydd roedd y Comisiwn o'r farn bod y gofrestr yn adlewyrchu'r risgiau mae CFfDLC yn agored iddynt ar hyn o bryd yn gywir. Roedd uwch dîm rheoli'r Comisiwn wedi adolygu'r gofrestr risg weithredol yn ystod mis Mehefin 2015. **Cytunwyd** ar gyfer adolygiadau o'r gofrestr risg weithredol yn y dyfodol, byddai uwch reolwyr yn cadw nodiadau o unrhyw newidiadau a wneir a'r rhesymau amdanynt.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Medi 2015

## 15. Adroddiad Rheoli'r Gyllideb

15.1 Nodwyd Adroddiad y Gyllideb a gyflwynwyd i gyfarfod y Comisiwn ar 21 Mehefin 2015.

## 16. Anrhegion a Lletygarwch – Adroddiadau a Datganiadau

16.1 Nododd y Pwyllgor na wnaed unrhyw ddatganiadau o anrhegion neu letygarwch ar gyfer 2015-16 hyd yn hyn.

## 17. Cwynion

17.1 Nododd y Pwyllgor na chafwyd unrhyw gwynion ar gyfer 2015-16 hyd yn hyn.

## 18. Adroddiad a Pholisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll

18.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ar gyfer 2015-16 hyd yn hyn.

18.2 Ystyriwyd Polisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll CFfDLC. Nodwyd bod y rhestr gysylltiadau yn Atodiad B i'r Polisi Chwythu Chwiban wedi newid erbyn hyn oherwydd yr ailstrwythuro diweddar o uwch aelodau staff yn Llywodraeth Cymru. **Cytunwyd** y byddai Lisa James yn darparu'r manylion cywir i'r Ysgrifenyddiaeth er mwyn diweddaru'r polisi.
**Gweithredu**: Lisa James **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2015

18.3 Nodwyd bod y Polisi Twyll yn cyfeirio at y 'Pwyllgor Archwilio' o hyd, a **chytunwyd** y dylid newid hyn i 'Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg'.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2015

18.4 Ystyriwyd y dylid cynnwys y polisïau yn y broses Adolygiad Rheoli Perfformiad ar gyfer staff CFfDLC a hefyd eu cynnwys ar agendâu ar gyfer unrhyw weithdai yn y dyfodol. Ystyriwyd y dylid sicrhau bod staff CFfDLC yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi adolygu'r polisïau ac y gofynnir iddynt eu nodi. **Cytunwyd** y byddai neges e-bost yn cael ei hanfon at yr holl staff i'r perwyl hwn.
**Gweithredu**: Rheolwyr Cyllid **Erbyn**: 30 Awst 2015

## 19. Adroddiad Diogelwch Data TG

19.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

## 20. Unrhyw Fater Arall

### i. Newid i Awdurdodiadau Mandadau a Thaliadau Banc

20.1 Crybwyllwyd bod y Comisiwn wedi ystyried eu lefelau awdurdodi mandadau a thaliadau banc yn eu cyfarfod ar 21 Mehefin 2015 yn dilyn anawsterau'n deillio o wrthdaro rhwng lefelau awdurdodiad ar gyfer bancio ar-lein a llofnodwyr sieciau mandadau banc. Roedd y Comisiwn wedi penderfynu bod y cyfyngiadau sydd ar waith ar fandad y cyfrif banc ar gyfer llofnodwyr sieciau ar ôl yr oed ac yn rhwystro taliadau cyflenwyr rhag cael eu prosesu'n effeithlon, o ystyried mai'n anaml iawn y mae'r Comisiwn yn llofnodi sieciau erbyn hyn. Roeddent o'r farn bod y rheolaethau mewnol presennol sydd ar waith ar gyfer awdurdodi taliadau i gyflenwyr yn ddigon i ganiatáu un awdurdodiad gan uwch reolwr ar gyfer taliadau bancio ar-lein, a chytunasant y dylid newid mandad banc y Comisiwn i ganiatáu un awdurdodiad ar gyfer taliadau yn unol â hynny. Nododd y Pwyllgor y penderfyniad hwn.

### ii. Newid i Raddfeydd Sicrwydd Archwilio Mewnol

20.2 Crybwyllodd Katherine Shafer fod Deloitte wedi newid system ei raddfeydd sicrwydd archwilio i gyd-fynd ag Arweiniad Trysorlys EM ac Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth. Roedd hyn yn golygu y byddai'r lefelau sicrwydd blaenorol, sef 'Llawn'; 'Sylweddol'; 'Cyfyngedig'; a 'Dim' yn cael eu disodli gan 'Sylweddol'; 'Cymedrol'; 'Cyfyngedig'; ac 'Anfoddhaol'. Nododd y Pwyllgor y newidiadau hyn.

### iii. Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol

20.3 Crybwyllwyd na fyddai un o Aelodau'r Pwyllgor yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod a oedd fod i gael ei gynnal ar 11 Tachwedd 2015. Cynigiwyd dyddiad newydd dros dro o 24 Tachwedd 2015 ar gyfer y cyfarfod hwn. Ystyriwyd hefyd y dylid trefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod mis Chwefror 2016, a chynigiwyd dyddiad dros dro o 24 Chwefror 2016. **Cytunwyd** y byddai'r dyddiadau arfaethedig hyn yn cael eu cylchredeg i'r aelodau trwy'r e-bost er mwyn iddynt gadarnhau p'un a fyddant ar gael ai peidio.

**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2015